# Cod Ymarfer ar gyfer Lles Ceffylau

# Drafft at ddiben Ymgynghoriad

DRAFFT

## Rhagarweiniad

O dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 ("y Ddeddf"), os ydych yn berchen ar anifail neu'n gyfrifol am anifail, mae dyletswydd gyfreithiol arnoch i wneud popeth rhesymol i sicrhau bod ei anghenion lles yn cael eu bodloni. Mae'r cod yn esbonio'r hyn y mae angen i chi ei wneud i roi gofal at y safon sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Os ydych yn rhiant neu'n warcheidwad plentyn sy'n iau na 16 mlwydd oed, chi sy'n gyfrifol am unrhyw anifail sydd yng ngofal y plentyn hwnnw.

Nid yw torri amodau'r cod hwn yn drosedd ynddo'i hun ond, os cewch eich erlyn am drosedd yn ymwneud â lles yn unol â'r Ddeddf, gallai'r llys ystyried i ba raddau rydych wedi cydymffurfio â'r cod wrth benderfynu a ydych wedi cyflawni trosedd neu beidio neu a ydych wedi gofalu am yr anifail at y safon ofynnol. Ni ddylech beri i anifail ddioddef yn ddiangen; gallai hyn fod yn drosedd difrifol o dan y Ddeddf.

Yn y cod, cyfeirir at arbenigwyr gofal am anifeiliaid. Pobl yw'r rhain sydd, oherwydd eu profiad neu eu cymwysterau, yn gallu rhoi cyngor am les a rhai agweddau ar iechyd un neu fwy o fathau o anifeiliaid. Ymhlith yr enghreifftiau y mae gwyddonwyr ymddygiad anifeiliaid, nyrsys milfeddygol a sefydliadau lles penodol. Dylai perchnogion/ceidwaid anifeiliaid ofyn i'w milfeddyg am gyngor am iechyd eu hanifail.

I gael rhagor o wybodaeth am Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 a gwybodaeth am eich cyfrifoldebau yn unol â'r ddeddf, ewch i Atodiad 2 ar ddiwedd y cod hwn. I weld ffynonellau eraill o wybodaeth, ewch i Atodiad 3.

Dylech fod yn ymwybodol bod y ddeddfwriaeth a ddyfynnir yn y cod ac yn Atodiad 2 yn gywir ar adeg cyhoeddi'r ddogfen hon ond gallant newid wedi hynny.

Nid yw'r rhagarweiniad hwn yn rhan o'r cod, ond y bwriad yw ei fod yn esbonio pwrpas y cod a'i nodau cyffredinol. Yn yr un modd, nid yw Atodiad 2, sy'n tynnu sylw at y gofynion cyfreithiol perthnasol ac Atodiad 3, sy'n rhestru ffynonellau ychwanegol o wybodaeth, yn rhan o'r cod ychwaith.

DRAFT

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | Tudalen 4 |
| Dyletswydd Gofal | Tudalen 5 |
| Adran 1: Yr Amgylchedd | Tudalen 7 |
| Adran 2: Deiet | Tudalen 13 |
| Adran 3: Ymddygiad | Tudalen 20 |
| Adran 4: Cwmni | Tudalen 22 |
| Adran 5: Iechyd a Lles | Tudalen 23 |
| | |
| **Atodiad 1:** Clymu | Tudalen 28 |
| **Atodiad 2:** Y Gyfraith | Tudalen 30 |
| **Atodiad 3:** Ffynonellau gwybodaeth | Tudalen 34 |
| **Atodiad 4:** Dull Adnabod Ceffylau a Phasbortau | Tudalen 36 |


DRAFFT

# Cyflwyniad

Yn y Cod hwn, mae'r gair “ceffyl” yn cynnwys pob ceffyl domestig, merlen, asyn, a chroesrywiau rhyngddynt. Defnyddir y gair hwn yn y ddogfen drwyddi draw, ac eithrio pan fydd anghenion asynnod yn wahanol.

Mae bod yn berchen ar geffyl a gofalu am un yn gallu bod yn hwyl ac yn werth chweil, ond mae hefyd yn gyfrifoldeb mawr ac yn ymrwymiad o ran gofal ac yn ymrwymiad ariannol hirdymor. Chi sy’n rheoli ffordd o fyw eich ceffyl; eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod anghenion eich ceffyl yn cael eu bodloni, beth bynnag yw’r amgylchiadau. Mae Deddf Lles Anifeiliaid 2006 yn mynnu bod rhaid i chi gymryd camau rhesymol i sicrhau:

- Bod ganddo amgylchedd addas i fyw ynddo;
- Ei fod yn cael deiet iach;
- Ei fod yn cael ymddwyn yn naturiol;
- Bod ganddo gwmni addas;
- Ei fod yn cael ei warchod rhag poen, dioddefaint, anaf ac afiechyd.

Mae’r rhain yn cael eu hegluro’n fwy manwl yn y Cod hwn. Am ragor o gyngor, mynnwch air â’ch milfeddyg neu arbenigwr cymwys. Mae rhagor o ffynonellau gwybodaeth wedi'u rhestru yn Atodiad 3.

Mae pob anifail yn wahanol ac wrth i chi ddod i adnabod eich ceffyl, byddwch yn dod i ddysgu ac i adnabod ei gymeriad. Mae’n bwysig eich bod yn sylwi ar unrhyw newidiadau mewn ymddygiad, oherwydd gallai hyn awgrymu bod eich ceffyl mewn braw, yn sâl, neu fod ganddo anghenion sydd ddim yn cael eu bodloni mewn rhyw ffordd.

Mae’n bosibl y bydd gan geffyl sy’n cael ei drin gan filfeddyg anghenion arbennig neu ychwanegol a bennwyd gan y milfeddyg a bydd y rheini’n disodli gofynion y cod hwn.

Mae’r gair “ceidwad” yn y Cod hwn yn golygu rhywun sy’n gofalu am yr anifail neu sy’n gyfrifol amdano, naill ai’n barhaol neu dros dro.

Mae’r Cod Ymarfer hwn yn cael ei gyhoeddi o dan adran 14 o Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006 (y “Ddeddf”). Mae’r cod ymarfer hwn yn berthnasol i Gymru yn unig, a chaiff ei gyhoeddi gan Weinidogion Cymru. Mae’n dod i rym ar [**DATE TO BE ADDED**]. Mae’n berthnasol i bob ceffyl y mae unigolyn yn gyfrifol amdano.

**Eich cyfrifoldeb chi yw darllen y Cod Ymddygiad i ddeall yn iawn beth yw anghenion lles eich ceffyl a beth sy’n ddisgwyliedig ohonoch yn llygad y gyfraith.**

DRAFT

## Dyletswydd Gofal

O dan Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006, mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar berchnogion a cheidwaid anifeiliaid i ofalu am yr anifeiliaid y maent yn gyfrifol amdanynt, boed hynny'n barhaol neu dros dro. Felly, gallai person fod yn gyfrifol am anifail os yw'n berchen neu os yw'n gofalu amdano, ond byddai gan y perchennog gyfrifoldeb parhaus am ei anifail hyd yn oed os oes rhywun arall yn gofalu amdano. Rhiant neu warcheidwad plentyn o dan 16 mlwydd oed sy'n gyfrifol am unrhyw anifail y mae'r plentyn yn gofalu amdano. Mae hynny'n sicrhau mai oedolyn sydd fel arfer yn gyfrifol am anifail. Os bydd ceidwad yn gadael anifail yng ngofal rhywun arall, dyletswydd y ceidwad yw sicrhau bod y person hwnnw'n gymwys a bod ganddo'r awdurdod angenrheidiol i weithredu mewn argyfwng.

Mae bod yn gyfrifol am anifail yn cynnwys deall anghenion iechyd a lles penodol yr anifail a meddu ar yr wybodaeth a'r sgiliau priodol i ofalu amdano. Bydd gofyn i'r rheini sy'n gyfrifol am yr anifail gydymffurfio hefyd â'r ddeddfwriaeth, gwybod am y Codau Ymarfer priodol, a gwybod hefyd pryd i ofyn i berson cymwys am ei farn a'i help ac at bwy i droi e.e. pedolwr, deintydd ceffylau neu filfeddyg.

Ceir rhagor o wybodaeth am ddarpariaethau lles Deddf Lles Anifeiliaid 2006, a rhagor o fanylion am gyfrifoldebau ceidwad ceffyl, yn Atodiad 3.

Ceir disgrifiad manwl o anghenion ceffylau yn y Cod hwn; fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd gan geffyl unigol anghenion eraill sydd angen eu bodloni er mwyn sicrhau ei les. Bydd gan geffylau gwaith ofynion arbennig na fydd eu hangen ar geffylau anwes; dylai ceidwaid gadw'r anghenion ychwanegol hyn mewn cof. **Os nad yw ceidwad yn siŵr beth allai'r rhain fod, mae'n bwysig ei fod yn holi am gyngor gan filfeddyg neu arbenigwr mewn gofalu am anifeiliaid.** Gallwch gael cyngor penodol am les ceffyl cystadlu drwy ffynonellau sy'n gysylltiedig â'r gamp dan sylw.

Cyn prynu ceffyl, mae llawer o bethau pwysig i'w hystyried:

- A yw'n syniad da eich bod yn prynu ceffyl, neu a ddylech chi ystyried opsiynau eraill megis benthyg ceffyl am gyfnod byr neu gyfnod hir? Mae cael benthyg ceffyl yn gallu bod o gymorth i ddarpar geidwaid ddeall yr ymrwymiad sydd ei angen a'r costau sy'n gysylltiedig â chadw ceffyl. Gall ceffyl fyw am gyn hired â 40 mlynedd felly mae'n ymrwymiad hirdymor.
- Faint mae'n costio i gadw ceffyl. Efallai bydd cost prynu ceffyl yn isel o'i gymharu â'r costau parhaus. Bydd y costau hyn yn amrywio, yn dibynnu ar anghenion y ceffyl unigol, ble mae'n cael ei gadw ac at ba ddefnydd. Yn ogystal â chostau beunyddiol, bydd angen i chi hefyd ystyried costau porthi atodol, rhoi moddion llyngyr, yswiriant, ffioedd milfeddyg (yn cynnwys brechiadau rheolaidd a deintyddiaeth), pedoli, cyfarpar, cludiant a hyfforddiant ac yn y blaen. **Dylai darpar geidwaid bwyso a mesur yr holl gostau cyn penderfynu a ydynt yn gallu fforddio ceffyl;**
- Mae'n bwysig dod o hyd i'r anifail iawn oherwydd gall hyn atal sawl problem yn y dyfodol. Mae'n bwysig dewis ceffyl â'r natur iawn, o'r brid iawn, sy'n gweddu i anghenion a gallu'r ceidwad. Bydd rhyw ac oed yr anifail yn effeithio ar sut y dylid magu'r ceffyl, ei gartrefu, ei fwydo a/neu ei weithio. Gofynnwch

am gyngor cyn penderfynu. Cyn prynu ceffyl, mae’n syniad da rhoi cynnig ar sawl ceffyl gwahanol er mwyn gallu cymharu, a dylid gofyn am gyngor bob amser gan rywun sydd â phrofiad ym maes ceffylau. Cyn prynu, mae’n hanfodol rhoi cynnig ar geffyl ym mhob agwedd ar y dasg y disgwylir i’r ceffyl ei pherfformio, er enghraifft marchogaeth ysgafn, neidio a gwaith ar dir gwastad, ac mae’n syniad da rhoi cynnig ar geffylau dethol fwy nag unwaith. Argymhellir yn gryf bod milfeddyg annibynnol yn rhoi archwiliad i geffyl cyn ei brynu;

- Dylai’r darpar geidwad ystyried sut ac ymhle y bydd y ceffyl yn cael ei gadw;
- Dylid ystyried faint o amser y bydd angen ei dreulio yn gofalu am y ceffyl ac yn ei ymarfer.
- A oes gan y darpar geidwad y sgiliau a’r wybodaeth briodol? Os nad oes, dylent ystyried cael profiad gyda cheffylau cyn hynny drwy fynd i stablau marchogaeth neu wneud gwaith gwirfoddol.
- Mae angen i ddarpar geidwad ystyried cael cynlluniau wrth gefn hefyd, er enghraifft:
    - cael stablau a chludiant ar gyfer ceffylau sy’n cael eu cadw ar laswellt pe byddai angen triniaeth ar frys gan filfeddyg;
    - cael cyfleusterau i ynysu’r ceffyl pe byddai angen gwneud hynny yn dilyn cyngor gan y milfeddyg
    - trefniadau eraill ar gyfer gofalu am geffyl os na fydd y ceidwad yn gallu gwneud hynny am ryw reswm.

  Dylid adolygu’r trefniadau wrth gefn hyn os bydd unrhyw newid yn amgylchiadau'r ceidwad neu’r ceffyl.

Pan fydd darpar geidwad wedi penderfynu prynu ceffyl:

- Dylid ystyried yn ofalus oddi wrth bwy y dylid prynu'r ceffyl. Os bydd y ceffyl yn cael ei werthu drwy farchnad neu ddeliwr ceffylau, dylai’r ceidwad edrych yn ofalus ar delerau ac amodau’r gwerthiant a chael derbynneb wrth brynu;
- Rhaid i unrhyw geffyl a brynir neu a werthir gael pasbort ceffyl dilys. Rhaid i geffylau, asynnod ac anifeiliaid tebyg gael pasbort ceffyl. Mae'r llyfryn bach yn adnabod eich anifail drwy ei uchder a'i rywogaeth, ac yn nodi a oes modd defnyddio eich anifail ar gyfer bwyd i bobl ar ôl iddo farw. Mae pasbortau ceffyl yn ofyniad cyfreithiol. Dylid gwirio manylion y pasbort cyn prynu, yn enwedig y silwét (diagram o farciau a lliwiau) i sicrhau ei fod yn cyfateb i’r ceffyl ac, os yw’n bosibl, y microsglodyn i sicrhau ei fod yn cyfateb i'r pasbort. Gall y sefydliad sydd wedi darparu’r pasbort gadarnhau mai nhw sydd wedi cyhoeddi'r pasbort. Mae rhestr o'r sefydliadau awdurdodedig ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

# Adran 1: Amgylchedd

1.1 Mae'r adran hon yn cynnig arweiniad ar ddarparu man addas i fyw i geffylau.

## Cysgod

1.2 Nid oes angen stabl neu do ar bob ceffyl. Mae gan rai bridiau caled (fel ein merlod brodorol) gotiau trwchus ac yn gallu byw yn yr awyr agored gydol y flwyddyn, cyn belled â'u bod yn cael cysgod rhag y gwynt a haul yr haf. Gall y cysgod fod yn naturiol (er enghraifft coed neu berthi) neu wedi'i wneud gan ddyn. Ond, os nad yw'r ceffylau o frîd mor wydn (e.e. ceffylau gwaed pur), os ydynt wedi'u clipio, yn ifanc iawn neu'n hen, efallai y bydd angen stabl, to neu gysgod arall arnynt i'w hamddiffyn rhag y glaw, y gwynt a thymereddau oer neu boeth iawn.

Daw asynnod o Affrica ac Asia. Nid ydynt yn hoff o law trwm gan nad yw eu cotiau'n dal dŵr yn iawn. Felly mae angen cysgod arnynt drwy'r amser - nid yw cysgod naturiol yn ddigonol.

## Stablau/Adeiladau cadw anifeiliaid

1.3 Dylid ystyried lles y ceffyl bob amser wrth adeiladu neu ailwampio adeiladau i ddarparu llety i geffylau. Diogelwch a chysur y ceffylau fydd y prif bethau i'w hystyried, ynghyd â mynediad hwylus, golau, awyru a draeniad. Os nad yw o ddyluniad da, neu os nad yw'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda, gall yr adeilad gyfrannu at ledaenu clefyd yn gyflym, gall achosi anafiadau a thanau. Dylai'r adeilad gael ei adeiladu i ymgorffori'r argymhellion ar gyfer diogelwch tân a geir yn y "Canllaw ar Ddiogelwch Tân mewn Sefydliadau Cadw Anifeiliaid a Stablau" gan yr Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau. Mae'r canlynol yn berthnasol i bob adeilad cadw ceffylau gan gynnwys stablau unigol, stalau/corau ac ysguboriau sy'n dal sawl ceffyl.

- **Adeiladwaith:** Dylai adeiladau fod yn gryf eu hadeiladwaith, heb unrhyw arwynebau neu ddarnau o adeiladwaith amlwg a allai achosi niwed. Dylid gallu glanhau a diheintio pob arwyneb yn effeithiol. Os yw arwynebau'n cael eu trin, dylid defnyddio paent neu hylif pren diwenwyn;
- **Gosodiadau a ffitiadau:** ni ddylai gosodiadau a ffitiadau fel cylchoedd clymu, rheseli a chafnau dŵr fod ag ymylon miniog iddynt a dylid eu lleoli'n ofalus fel na all y ceffyl anafu'i hun, yn enwedig ei lygaid. Os defnyddir rhwyd wair, dylai gael ei gosod ar yr un uchder â phen y ceffyl er mwyn iddo allu bwydo'n gyfforddus heb i draed y ceffyl neu ei ffrwyn fynd yn sownd ynddi pan fydd yn wag;
- **Lloriau:** dylent fod yn weddol wastad, yn anodd llithro arnynt ac yn draenio'n dda, ac fel bod unrhyw wastraff stabl yn llifo oddi wrth y ceffyl;
- **Drysau:** dylent fod o leiaf 4 troedfedd (1.2 metr) o led, ac wedi'u rhannu'n ddrws isaf a drws uchaf. Rhaid iddynt agor tuag allan a dylai uchder y drws isaf alluogi'r ceffyl i edrych allan drosto a'i ben yn gyfforddus dros y drws. Dylid gallu cau'r drysau â bolltiau ar y rhan isaf a'r rhan uchaf. Wrth

DRAFT

ddylunio stablau, dylid ystyried y prifwyntoedd i sicrhau bod yr awyru'n ddigonol gyda chylchrediad aer da, ond gan osgoi drafftiau gormodol.

- **Toeon:** dylent fod yn ddigon uchel i aer fedru cylchredeg yn rhwydd. Dylai fod o leiaf 60-90cm (2-3 troedfedd) o ofod clir rhwng blaen clustiau'r ceffyl yn ei osgo sefyll arferol a'r bargod;
- **Goleuni:** Rhaid wrth ddigon o olau yn y stabl i'r ceffyl allu gweld yn ddigonol ac i allu archwilio a thrin y ceffyl yn ddiogel. Gallai hyn gynnwys golau cludadwy. Dylid rhoi ffitiadau diogelwch o amgylch bylbiau, a rhaid gosod y ceblau'n ddiogel allan o gyrraedd y ceffyl;
- **Ffenestri:** Ffenestri diogelwch neu Perspex (gyda bariau rhwng y ceffyl a'r gwydr) sydd orau. Dylai un ffenest neu'r drws uchaf fod ar agor trwy'r amser fel arfer;
- **Mae asynnod angen cael mynediad i gysgod bob amser:** Dylai llawr y cysgod, a'r ardal o'i gwmpas, fod yn galed ac yn draenio'n iawn. Dylid caniatáu oddeutu 4.5 metr sgwâr (50 troedfedd sgwâr) o le dan do i bob asyn, oddeutu 9 metr sgwâr (100 troedfedd sgwâr) i bâr.

1.4 Gan fod ceffylau'n amrywio gymaint o ran maint, mae'n anodd dweud beth yw lloc, ysgubor neu stabl delfrydol ei faint. Fodd bynnag, dylai bod gan bob ceffyl o leiaf ddigon o le i orwedd, codi'n rhwydd a throi o gwmpas yn gyfforddus. Dylai pob llwybr tramwy fod yn ddigon llydan i allu tywys y ceffylau'n ddiogel heibio i geffylau eraill. Mae Cymdeithas Ceffylau Prydain yn argymell y meintiau sylfaenol canlynol ar gyfer stablau:

- Ceffylau – 3.65m x 3.65m (12tr x 12tr)
- Ceffylau mawr – 3.65m x 4.25m (12tr x 14tr)
- Merlod ac Asynnod – 3.05m x 3.05m (10tr x 10tr)
- Merlod mawr – 3.05m x 3.65m (10tr x 12tr)

Bydd cesyg cyfeb a chesyg ac ebol wrth droed angen rhagor o le. Dylai stâl ar gyfer geni ebol fod yn 14 troedfedd wrth 14 troedfedd o leiaf.

1.5 Gellir cadw grwpiau o geffylau gyda'i gilydd mewn ysguboriau ond dylid gofalu bod pob ceffyl yn cael digon o wair, bwyd a dŵr. Dylai fod ganddynt ddigon o le i symud yn rhwydd ynddo ac i bob ceffyl allu gorwedd yr un pryd. Dylid dewis grwpiau sy'n gallu cyd-fyw â'i gilydd. Dylai rhai anifeiliaid gael eu cadw ar wahân fel ceffylau arbennig o ffyrnig, cesyg sydd ar fin geni, cesyg â'u hebolion gyda nhw, stalwyni ac ebolfeirch.

1.6 Bydd angen digon o ddeunydd gorwedd addas ym mhob adeilad sy'n dal ceffylau i gadw'r ceffylau'n gynnes, eu diogelu rhag anaf ac iddynt orwedd yn gyfforddus. Dylai'r deunydd gorwedd fod yn ddiwenwyn, heb lwch na llwydni, a bydd yn draenio'n rhwydd neu'n amsugno digon i gadw'r gwely'n sych a helpu i gadw'r aer yn ffres. Os yw matiau rwber yn cael eu defnyddio, argymhellir ychwanegu ychydig o wasarn arno i amsugno'r wrin. Pa fath bynnag o ddeunydd gorwedd a fydd yn cael ei ddefnyddio (e.e. gwellt,

DRAFT

naddion, matiau rwber ac ati), dylid gofalu amdano a'i newid neu ei lanhau'n rheolaidd.

1.7 Mae tân bob amser yn berygl mewn stablau. Dylid gofyn i'r Swyddog Atal Tanau lleol beth yw'r gofynion statudol. Dylai pob offer a gwasanaethau (unedau goleuo, diffoddyddion tân a larymau) gael eu cadw'n lân ac mewn cyflwr da a dylai swyddog cymwys eu harchwilio bob blwyddyn. Rhaid defnyddio trydanwr cymwys i osod a chynnal a chadw gosodiadau trydan ar y prif foltedd ynghyd â'u harchwilio a'u profi yn achlysurol, yn unol ag argraffiad diweddaraf rheoliadau weirio'r Sefydliad Peirianwyr Trydanol (IEE). Rhaid i'r weiars a'r offer fod allan o gyrraedd y ceffylau, rhaid eu hynysu'n drylwyr a'u diogelu rhag llygod a'u daearu'n gywir. Rhaid daearu pibellau metel a gwaith adeiladu o ddur yn iawn. Gellir lleihau'r perygl o dân a thrydaneiddio trwy ddiogelu'r holl waith trydan â dyfais cerrynt gweddillol (RCD). Ni ddylid cadw hylif fflamadwy na deunydd llosgadwy ar gyfyl stabl lle mae ceffylau'n cael eu cadw. Dylai trawstiau a silffoedd eraill gael eu glanhau'n rheolaidd. Ni ddylai neb gael smygu yn y stabl a'r cyffiniau.

1.8 Dylai fod yn bosibl rhyddhau ceffylau sy'n cael eu cadw mewn stabl yn gyflym pe bai yna dân neu argyfwng arall, gan ddilyn cynllun rhyddhau mewn argyfwng a fydd wedi'i lunio ymlaen llaw.

## Porfa

1.9 Fel arweiniad, er mwyn cynnal cyflwr y corff, dylai pob ceffyl gael o leiaf 0.4 i 0.6 hectar (erw i erw a hanner) o dir pori da os nad oes unrhyw fwyd ychwanegol yn cael ei roi iddo. Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar gyflwr y tir, amser y flwyddyn, y math o geffyl a pha mor drylwyr y mae'r borfa'n cael ei rheoli. Gallai darn llai o dir wneud y tro os ydy'r ceffyl dan do fel arfer a'r mannau pori dim ond yn cael eu defnyddio yn awr ac yn y man.

Ar gyfer asynnod, argymhellir oddeutu hanner erw o dir pori a/neu dir troi allan addas i bob asyn. Felly, bydd dau asyn angen cae a chysgod o ryw un erw.

1.10 Nid yw wastad yn bosibl nac yn ymarferol dod â cheffyl o gae neu borfa sy'n troi'n fwdlyd. Ond, mae'n hanfodol bod gan y ceffyl le cyfforddus a sych i orwedd a sefyll arno, ac i gael ei fwydo a chael dŵr arno.

1.11 Awgrymir cael rhaglen rheoli porfa dda er mwyn osgoi gorbori, rheoli llyngyr, sicrhau draeniad da a rheoli chwyn. Dylai hyn, er enghraifft, gynnwys casglu'r dom, cylchdroi'r ardaloedd pori a lle bo modd, mynd â'r ceffyl o'r cae pan fydd hi'n wlyb iawn rhag iddo sarnu'r tir (h.y. sathru'r tir yn fwd) ac achosi problemau iechyd.

1.12 Dylai'r ffensys fod yn ddigon cryf ac uchel i rwystro'r ceffyl rhag dianc (efallai y bydd angen ffens uwch ar farch) ac wrth eu dylunio, eu hadeiladu a'u cynnal, dylid gwneud yn siŵr nad oes perygl iddynt niweidio'r ceffyl ac nad oes unrhyw ran yn siarp. Dylai bylchau fod yn rhwydd a diogel i geffylau fynd trwyddynt, a dylai giatiau gael eu cau'n sownd rhag anafu'r ceffyl a rhag iddo ddianc. Weithiau, bydd angen rhoi clo ar y giatiau. Ni ddylai weiren bigog

gael ei defnyddio mewn cae gyda cheffylau ynddo. Gall ffensys fel weiren blaen a gwifren ddefaid, nad ydynt wedi'u dylunio'n bennaf ar gyfer ceffylau, achosi anaf.

1.13 At ei gilydd, mae Cymdeithas Ceffylau Prydain yn argymell y dylai ffensys fod yn 1.24 metr (4 troedfedd) o uchder. Ond dyma argymhellion mwy penodol:

- Ceffylau – 1.08m – 1.38m (3tr 6" – 4tr 6")
- Asynnod – 1m i 1.3m (3tr 3" – 4tr 3")
- Rheilen isaf (yn y ddau achos) - 0.5m (1tr 6") uwchben y ddaear
- Meirch- 1.25m i 2m (4tr1" i 6tr 5")

Efallai y bydd meirch/stalwyni angen ffens ddwbl a ffens drydan ar hyd top rheilen y padog. Byddai hynny'n ei rwystro rhag bod yn gas neu'n orgariadus â cheffylau mewn caeau gerllaw, yn ogystal â chadw'r march yn ei briod gae.

1.14 Wrth gynllunio, gosod a chynnal ffens drydan, ni ddylai achosi mwy nag eiliad o anesmwythyd i geffyl sy'n cyffwrdd â hi; dylai'r holl unedau pŵer fod wedi'u daearu'n briodol. Bydd angen cadw golwg ychwanegol ar geffylau sy'n cael eu cadw rhag crwydro gan ffens drydan nes eu bod yn dod yn gyfarwydd â hi. Gellir defnyddio tâp trydan a physt plastig i rannu cae dros dro ac mae'r rhain yn creu rhwystr mewnol effeithiol, ond ni ddylech eu defnyddio fel yr unig ffens derfyn.

1.15 Dylid gwneud yn siŵr nad oes dim byd peryglus na phlanhigion gwenwynig yn y caeau.

## Planhigion Gwenwynig

1.16 Mae sawl planhigyn yn wenwynig i geffylau gan gynnwys llysiau'r gingroen, yr ywen, tresi aur a'r sycamorwydden. Mae rhestrau cynhwysfawr o blanhigion gwenwynig i'w gweld ar wefannau'r rhan fwyaf o sefydliadau ceffylau a lles. Ceir dolenni i'r gwefannau hyn yn Atodiad 3. Dylai ceidwaid fod yn gyfarwydd â'r planhigion hyn a gwneud yn siŵr bod y planhigion hyn (a'u torion) allan o gyrraedd ceffylau ar bob achlysur. Os ydy'r caeau'n ffinio â thai, mae'n bwysig gofalu nad yw ceffylau'n cael mynd at wastraff gardd gan gynnwys torion lawnt.

1.17 Mae llysiau'r gingroen yn un o'r chwyn sy'n cael eu pennu yn Neddf Chwyn 1959 a chafodd y "Cod Ymarfer er mwyn Rhwystro a Rheoli Ymlediad Llysiau'r Gingroen" ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2011 ac mae ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae holl rywogaethau llysiau'r gingroen (creulys ledlwyd, creulys y gors a chreulys Rhydychen sydd hefyd i'w cael yng Nghymru) yn wenwynig i geffylau a dylid eu codi a'u gwaredu'n ofalus ble bynnag y deuir ar eu traws. Mae llysiau'r gingroen yn wenwynig i bobl hefyd gan mae'r gwenwynau'n gallu cael eu hamsugno drwy'r croen ac felly mae angen gwisgo menig i'w trin. Dylid cael gwared â holl rywogaethau llysiau'r gingroen drwy eu llosgi, eu llosgi dan reolaeth neu eu claddu mewn safle tirlenwi. Ni ddylid gadael llysiau'r gingroen lle gall ceffylau gael gafael arnynt

oherwydd, unwaith y caiff y planhigyn ei dorri, mae’n fwy blasus ond mae’n dal yn wenwynig.

## Clymu

1.18 Gellir diffinio clymu wrth dennyn fel proses a ddefnyddir i glymu anifail â chadwyn wrth angorfa neu bwynt canol er mwyn ei gadw o fewn ardal benodol. Nid yw clymu ceffyl wrth dennyn yn ffordd addas o reoli ceffyl gan ei fod yn atal y ceffyl rhag ymarfer ei gorff, chwilio am fwyd a dŵr, dianc rhag cŵn a chwilio am gysgod rhag tywydd oer neu dwym. Mae perygl hefyd i'r ceffyl faglu ac anafu ei hun ar y cyfarpar clymu.

1.19 Gallai clymu ceffyl wrth dennyn fod yn ffordd dda o reoli'r anifail am gyfnod byr iawn yn ystod seibiant ar daith, i rwystro'r ceffyl rhag anafu ei hun neu bobl, tra bod trefniadau tymor hir priodol yn cael eu gwneud, neu am resymau meddygol pan fydd milfeddyg yn cynghori bod angen cyfyngu'r hyn mae'r ceffyl yn ei fwyta. Mae’r angen am oruchwyliaeth reolaidd yn hanfodol.

1.20 Mae rhagor o fanylion am yr amodau y dylid eu bodloni wrth glymu ceffylau ar gael yn Atodiad 1. Nid yw'r term ‘clymu wrth dennyn’ fel y’i defnyddir yn y Cod yn berthnasol i geffylau sy’n cael eu clymu mewn stâl (dull cyffredin a ddefnyddir i gadw ceffylau'r cafalri). Os yw ceffyl yn cael ei glymu mewn stâl, dylai gael ymarfer corff rheolaidd oni bai ei fod yn cael ei gadw fel hyn o dan gyngor milfeddyg (e.e. fel rhan o driniaeth i gyflwr orthopedig).

## Rygiau a Chapanau

1.21 Ni fydd angen ryg ar bob ceffyl mewn tywydd cas gan fod gan rai bridiau caled gôt drwchus ac yn gallu byw allan mewn pob tywydd heb ryg trwy'r flwyddyn. Mae rhai o'r bridiau caled hyn yn hapusach heb ryg gan fod rygiau'n gallu crafu’r croen. Fodd bynnag, os nad yw'r ceffyl o frîd mor wydn, os yw wedi’i glipio neu'n oedrannus, efallai y bydd angen ryg arno i'w gadw'n gynnes ac yn sych mewn tywydd oer a gwlyb ac i'w amddiffyn rhag pryfed. Bydd angen tynnu'r ryg pan fydd y tywydd yn gwella (yn enwedig y tymheredd).

Mae’n annhebygol iawn y bydd asynnod ifanc ac iach angen ryg, gan y dylai fod ganddynt stabl neu gysgod yn y cae bob amser. Ond, mae oerni’n effeithio’n fwy ar asynnod hen, gwael, y rhai sydd o dan eu pwysau neu sydd wedi’u clipio ac efallai y bydd angen ryg arnynt ar rai adegau o'r flwyddyn.

1.22 Dylai’r ryg a'r capan fod o’r maint a’r pwysau iawn i’r ceffyl ac yn addas i'r tywydd a dylent fod o'r math iawn (h.y. wedi’u dylunio fel eu bod yn addas at y diben y’u bwriadwyd), ac wedi eu gosod yn gywir fel nad ydynt yn crafu'r ceffyl, yn ei glwyfo nac yn codi'r blew. Dylai’r rygiau gael eu tynnu'n rheolaidd er mwyn gweld cyflwr corff y ceffyl a’i iechyd cyffredinol. Yn ddelfrydol, dylai hyn gael ei wneud bob dydd.

DRAFT

1.23 Dylai rygiau gael eu glanhau ac, os bydd raid, eu trwsio’n rheolaidd a dylid sicrhau bod yr holl offer clymu’n gweithio’n iawn. Dylai fod ryg sbâr ar gael er mwyn gallu sychu ryg gwlyb iawn.

## Cadw golwg

1.24 Dylid bwrw golwg ar geffyl sy'n cael ei gadw mewn cae o leiaf unwaith bob dydd os nad yn amlach. Dylid mynd i weld ceffyl mewn stabl neu geffylau sy'n cael eu cadw gyda cheffylau eraill mewn ysgubor o leiaf ddwywaith bob dydd, ac eto, yn amlach os oes modd. Dylid rhoi sylw arbennig i’w gerddediad, ei hwyl, ei draed, cyflwr ei gorff a'i archwaeth fel y gellir gweld unrhyw arwydd o glefyd, anaf, salwch neu baraseit yn gyflym ac y gellir rhoi’r driniaeth briodol yn syth. Dylid hefyd ei archwilio'n fanylach yn rheolaidd er mwyn canfod unrhyw broblemau (e.e. anhwylder ar y croen) na fydd o bosib yn amlwg o bell.

1.25 Dylid crafu gwaelod carnau’r ceffylau bob dydd gan graffu am arwyddion o anafiadau, clwyfau, pedolau llac, pethau sy’n sownd yn y carnau ac am unrhyw beth anarferol.

1.26 Heblaw am geffyl sydd allan yn pori sydd ond yn gwneud gwaith ysgafn iawn, dylech ei gribo'n rheolaidd ond ddim yn ormodol (rhag codi'r olew sy'n amddiffyn y blew) i gadw'r got yn lân, yn ddi-glwyf ac yn ddi-baraseit ac i ganfod a yw rygiau, cyfrwyau a harneisiau wedi gwneud niwed.

DRAFT

# Adran 2: Deiet

2.1 Mae'r adran hon yn cynnig arweiniad ar ddarparu deiet addas i geffyl

## Dŵr

2.2 Mae'n hanfodol bod dŵr glân ffres ar gael i bob ceffyl heb gyfyngiad, neu o leiaf bod digon o ddŵr glân yn cael ei roi iddo'n aml ac yn rheolaidd gydol y dydd. Os ydych am ddibynnu ar ffynonellau dŵr naturiol, fel nentydd, rhaid iddynt fod yn lân, yn helaeth ac yn rhwydd mynd atynt. Bydd angen bod yn ofalus mewn tywydd twym neu rewllyd i gynnal y cyflenwad dŵr, er enghraifft, trwy dorri iâ yn rheolaidd pan fydd y tywydd yn oer neu drwy ddarparu mwy o ddŵr mewn tywydd twym.

2.3 Ar gyfartaledd, mae angen 20–40 litr (5–10 galwyn) o ddŵr ar geffyl bob dydd, ond mae hyn yn dibynnu ar bwysau corff y ceffyl. Efallai y bydd angen darparu dŵr ychwanegol ar ôl ymarfer corff, a hynny i geffylau â rhai cyflyrau iechyd, cesyg yng nghamau olaf eu beichiogrwydd a chesyg sy'n llaetha – dylid ymgynghori â milfeddyg os bydd angen. Mae angen mwy o ddŵr ar geffylau mewn stablau sy'n cael deiet yn cynnwys cyfran uwch o borthiant sych. Dylid darparu dŵr ffres mewn bwcedi glân neu drwy bowlenni yfed awtomatig. Dylid ail-lenwi bwcedi ddwywaith y dydd o leiaf, a dylid eu clymu'n sownd er mwyn eu hatal rhag troi drosodd.

2.4 Gofalwch fod cafnau dŵr yn sownd wrth eu sylfeini ar uchder priodol i ganiatáu i geffylau yfed ohonynt yn gyfforddus. Ni ddylai fod yn bosibl i geffylau stablad y dŵr neu dynnu'r cafn o'i le a'i droi drosodd. Ni ddylai fod corneli na darnau miniog arnynt, a rhowch orchudd am y tapiau. Glanhewch y cafnau dŵr a chynwysyddion dŵr eraill yn drylwyr ac yn rheolaidd. Wrth osod y cafn, gofalwch na fydd modd i'r ceffyl gael ei ddal neu ei gornelu a mynd yn sownd mewn rhan ohono. Os ydych yn defnyddio bwcedi, dylech daro golwg arnynt yn rheolaidd i sicrhau bod dŵr ar gael i'r ceffylau.

## Bwyd

2.5 Ychydig o fwyd yn aml y mae ceffyl yn ei fwyta wrth reddf. Ei fwyd naturiol yw porfa, sy'n fwyd bras sy'n brin o ynni. Dylai ceffylau gael deiet cytbwys gyda llawer o ffibr ynddo, yn cynnwys naill ai porfa, gwair, gwywair neu ffugwair er mwyn atgynhyrchu mor agos â phosibl eu bwyd naturiol. Dylech roi deiet iddo sy'n adlewyrchu ei anghenion ac sy'n ei gadw mewn cyflwr da. Dylech ystyried ei oed, ei frid, ei bwysau, ei gyflwr, ei iechyd a faint o waith y mae'n ei wneud

Bydd asynnod, yn eu cynefin naturiol, yn pori, gan fwyta planhigion ffibrog fel coed prennaidd a llwyni gydol y dydd, ac yn cerdded cryn bellteroedd yn aml. Dylai gwellt barlys fod ar gael iddynt yn rhwydd, a gellid rhoi swm a reolir o wair iddynt hefyd, er mwyn cynnal eu cyflwr drwy gydol misoedd y gaeaf.

DRAFT

2.6 O gael porfa dda i'w phori, dylai gael digon o frasfwyd a mwynau; os nad oes gan y ceffyl borfa dda, efallai y bydd angen rhoi bwyd ychwanegol iddo. Un ffordd o rwystro'ch ceffyl rhag pori mewn ardaloedd mawr o dir pori yw rhannu'r cae yn rhannau llai / caeau bychan gan ddefnyddio ffensys.

2.7 Gofalwch fod unrhyw fwyd sydd wedi'i gywain (gwair, gwywair ac ati) o safon uchel; dylai fod yn lân (heb bridd, sbwriel na phlanhigion gwenwynig), dylai arogli'n ffres a bod heb lwch na llwydni. Cyn belled â bod y llawr yn rhesymol o lân, mae'n syniad da ei fwydo ar y llawr gan fod hynny'n dda i iechyd anadlu'r ceffyl. Mae'n golygu hefyd bod y ceffyl yn bwydo fel pe bai'n pori.

2.8 Ni ddylai'r dwysfwyd (nid yw hynny'n cynnwys bwyd fel tsiaff a betys siwgr), a roddir yn ychwanegol at y borfa y mae'n ei bori neu borthiant tebyg mae'n ei gael, fod yn ddim mwy na sydd ei angen ar y ceffyl er mwyn bodloni gofynion egni'r ceffyl mewn ymateb i'r gwaith mae'n ei wneud. Dylech gymysgu'r bwyd yn dda a'i baratoi o'r newydd. Peidiwch â gwneud i geffyl weithio'n galed neu'n gyflym ar stumog lawn.

2.9 Mae'n bwysig eich bod yn prosesu'r bwyd yn iawn, ei gadw mewn cynwysyddion sy'n cadw fermin allan, a'i drin yn ofalus rhag iddo ddifetha a cholli'i werth o ran maeth. Dylid cadw’r cynwysyddion bwyd a'r offer bwydo'n lân. Ni ddylech roi bwyd sydd wedi'i lygru neu sydd wedi troi neu wedi llwydo i geffylau, a dylech ei daflu bob dydd.

2.10 Ar gyfer grŵp o geffylau mewn sgubor, dylai fod lle bwydo ar gyfer pob ceffyl, ac un lle ychwanegol. Gofalwch fod hyd dau geffyl o led rhwng pob man bwydo rhag i'r ceffylau anafu'u hunain wrth gystadlu am fwyd.


2.11 Cadwch olwg ar bwysau a chyflwr y ceffylau er mwyn osgoi problemau lles. Dylid newid y bwyd yn ôl yr angen i anifeiliaid sy'n mynd yn rhy dew neu'n rhy denau. Mae'n bwysig wrth ei fwydo eich bod yn trin pob ceffyl fel unigolyn a'ch bod yn paratoi deiet sy'n bodloni ei ofynion.

2.12 Mae gordewdra a rhai ffactorau o ran deiet a metaboledd ymhlith y ffactorau risg ar gyfer laminitis - clefyd poenus a gwanychol sy'n effeithio ar draed ceffylau. Mae anifeiliaid tew mewn mwy o berygl o ddatblygu laminitis nag anifeiliaid sy'n cynnal pwysau iach. Mae'r lefel uchel o egni mewn glaswellt irlas (ee yn ystod tyfiant o laswellt yn ystod y gwanwyn neu'r hydref) yn beryglus i anifeiliaid chwannog, ac efallai y bydd angen cyfyngu ar eu pori. Dylai ceidwaid sydd angen arweiniad manylach ar laminitis a sut mae rheoli anifeiliaid chwannog yn gywir gysylltu â'u milfeddyg.


DRAFT

## Body Condition Scoring - Horses


0 Very Poor




1 Poor




2 Moderate




3 Good



4 Fat



5 Very Fat



Copyright NEWC April 2003

## Sgorio Cyflwr Corff – Ceffylau

| S/C | Pelfis | Cefn ac Asennau | Gwddf |
|---|---|---|---|
| 0 Gwael Iawn | Onglog, croen yn dynn. Ffolen wedi sigo llawer. Ceudod dwfn o dan y gynffon. | Croen yn dynn dros yr asennau. Asgwrn cefn amlwg iawn a main. | Gwar cul ac amlwg. Cul a llac yn y gwaelod. |
| 1 Gwael | Pelfis a chrwper amlwg. Ffolen wedi sigo ond y croen yn ystwyth. Ceudod mawr o dan y gynffon. | Hawdd gweld yr asennau. Asgwrn cefn amlwg a chroen wedi sigo ar y naill ochr. | Gwar cul, gwaelod cul a llac. |
| 2 Gweddol | Y ffolen yn wastad y naill ochr i'r asgwrn cefn. Y crwper yn bendant iawn, rhywfaint o floneg. Mymryn o geudod o dan y gynffon. | Gellir gweld yr asennau. Yr asgwrn cefn wedi'i orchuddio ond gellir teimlo'r meingefn. | Cul ond cadarn. |
| 3 Da | Wedi'i orchuddio â bloneg ac yn grwn. Dim rhigol. Hawdd teimlo'r pelfis. | Asennau wedi'u gorchuddio, a gellir eu teimlo. Dim rhigol ar hyd y cefn. Yr asgwrn cefn wedi'i orchuddio'n dda ond gellir teimlo'r meingefn. | Dim gwrym (ac eithrio ymysg meirch). Gwddf cadarn. |
| 4 Tew | Rhigol wrth fôn y gynffon. Bloneg yn gorchuddio'r pelfis. Angen pwyso'n gadarn i deimlo. | Asennau wedi'u gorchuddio'n dda – angen pwyso i'w teimlo. | Mymryn o wrym. Llydan a chadarn. |
| 5 Tew Iawn | Rhigol ddofn wrth fôn y gynffon. Croen wedi chwyddo. Y pelfis wedi'i gladdu, ni ellir ei deimlo. | Asennau wedi'u claddu, ni ellir eu teimlo. Rhigol ddofn ar hyd y cefn. Y cefn yn llydan a gwastad. | Gwrym amlwg, yn llydan a chadarn. Torch o floneg. |

(Yn seiliedig ar Ddull Carroll a Huntingdon)
I gael sgôr ar gyfer y corff, sgoriwch y pelfis yn gyntaf, yna addaswch fesul hanner pwynt os yw bwynt neu ragor yn wahanol yn y cefn neu'r gwddf.


Hawlfraint NEWC Ebrill 2003

DRAFT


## Body Condition Scoring - Donkeys

**Reproduced with the permission of the Donkey Sanctuary**


1. POOR




2. MODERATE




3. IDEAL



4. FAT



5. OBESE



Fat deposits may be unevenly distributed especially over the neck and hindquarters. Some resistant fat deposits may be retained in the event of weight loss and/or may calcify (harden). Careful assessment of all areas should be made and combined to give an overall score.

Copyright NEWC April 2003

## Sgorio Cyflwr Corff – Asynnod

| S/C | GWDDF AC YSGWYDDAU | GWAR | ASENNAU A BOL | CEFN A LWYNAU | RHAN ÔL |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. GWAEL | Y gwddf yn denau, mae'n hawdd teimlo pob asgwrn. Mae'r gwddf yn cwrdd â'r ysgwydd yn sydyn. Onglog. | Meingefn y gwar yn amlwg, ac mae'n hawdd ei deimlo. | Gellir gweld yr asennau o bell, ac mae'n hawdd eu teimlo. Y bol wedi'i guddio. | Yr asgwrn cefn yn amlwg, mae'n hawdd teimlo cnapiau'r asgwrn cefn a'r cnapiau ardraws. | Mae'n hawdd gweld a theimlo esgyrn y glun (esgyrn y gar a'r coesau). Fawr o orchudd i'r cyhyrau. Gall fod ceudod o dan y gynffon. |
| 2. GWEDDOL | Rhywfaint o ddatblygiad cyhyrau dros yr esgyrn. Mymryn o bellter lle mae'r gwddf yn cwrdd â'r ysgwydd. | Rhywfaint o orchudd dros war y cefn. Gellir teimlo cnapiau'r asgwrn cefn ond nid ydynt yn amlwg. | Nid oes modd gweld yr asennau ond mae'n hawdd eu teimlo. | Gellir teimlo cnapiau asgwrn cefn a'r cnapiau ardraws drwy bwyso'n ysgafn. Datblygiad | Fawr o orchudd i'r cyhyrau ar y rhan ôl. Hawdd teimlo esgyrn y glun. |
| 3. DELFRYDOL | Datblygiad cyhyrau da. Gellir teimlo'r esgyrn o dan orchudd ysgafn o gyhyrau/bloneg. Y gwddf yn llifo'n llyfn i'r ysgwydd, sy'n grwn. | Gorchudd da o gyhyrau/floneg dros cnapiau'r asgwrn cefn. Y gwar yn llifo'n llyfn i'r cefn. | Haen ysgafn o floneg/cyhyrau'n gorchuddio'r asennau. Gellir teimlo'r asennau drwy bwyso'n ysgafn. Y bol yn gadarn, gyda ffyrfder cyhyrau da ac amlinelliad gweddol wastad. | Dim ond drwy bwyso'n gadarn y gellir teimlo cnapiau'r asgwrn cefn a'r cnapiau ardraws. Mymryn o grych ar hyd y llinell | Y rhan ôl yn grwn. Dim ond drwy bwyso'n gadarn y gellir teimlo'r esgyrn. Dyddodion braster wedi'u lleoli'n gyson. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ganol. | |
| 4. TEW | Gwddf yn drwchus, gwrym yn galed, yr ysgwydd wedi'i gorchuddio â haen gyson o fraster. | Gwar yn llydan. Gellir teimlo'r esgyrn drwy bwyso'n gadarn. | Dim ond drwy bwyso'n gadarn y gellir teimlo'r asennau ar y cefn. Haws teimlo asennau'r bol. Gormod o fol. | Dim ond drwy bwyso'n gadarn y gellir teimlo cnapiau'r asgwrn cefn a'r cnapiau ardraws. Mymryn o grych ar hyd y llinell ganol. | Rhan ôl yn grwn. Dim ond drwy bwyso'n gadarn y gellir teimlo'r esgyrn. Dyddodion brawster wedi'u lleoli'n gyson. |
| 5. GORDEW | Y gwddf yn drwchus, y gwrym yn taflu allan â bloneg, a gallai syrthio i un ochr. Yr ysgwydd yn grwn a bloneg yn taflu allan. | Gwar yn llydan. Ni ellir teimlo'r esgyrn. | Dyddodion braster mawr, ac anghyson yn aml, yn gorchuddio'r asennau ar yr agweddau'r cefn a'r agweddau fentrol. Ni ellir cyffwrdd yr asennau. Y bol yn hongian o ran trwch a dyfnder. | Y cefn yn llydan. NI ellir teimlo cnapiau'r asgwrn cefn na'r cnapiau ardraws. Crychau dwfn ar hyd y llinell ganol. Bloneg yn taflu allan bob ochr. | Ni ellir teimlo esgyrn y glun. Gallai bloneg fod yn hongian drosodd y naill ochr i fôn y gynffon. Bloneg yn aml yn anghyson ac yn taflu allan. |

DRAFT

## Adran 3: Ymddygiad

3.1 Mae’r adran hon yn cynnig arweiniad ar ymddygiad ceffylau.

### Ymarfer corff

3.2 Mae angen ymarfer corff neu'r rhyddid i ymarfer corff ar bob ceffyl a merlyn, a bydd angen i'r ceidwad roi amser ac ymdrech i sicrhau hynny. Dylai pob ceffyl sy'n cael ei gadw mewn stabl gael ymarfer mewn cae neu gael lle i gael ymarfer bob dydd, oni bai bod milfeddyg wedi rhoi cyngor gwahanol. Os nad oes modd i geffyl fynd allan, rhaid rhoi ymarfer dyddiol priodol iddo a/neu arwain ceffyl allan i bori.

3.3 Dylai lefel y gwaith y disgwylir i geffyl ei wneud gynyddu’n raddol ac yn gyson, dros gyfnod priodol. Ar gyfer ceffylau sydd dros eu pwysau, mae rhaglen o ymarfer dyddiol yn bwysig, a hynny ar y cyd â newidiadau i'w ddeiet, er mwyn colli pwysau. Ni ddylai’r un ceffyl ymarfer y tu hwnt i’w allu. Dylid ystyried oedran, cydffurfiad, iechyd a ffitrwydd y ceffyl. Dylid cael cyngor rhywun proffesiynol, megis milfeddyg, am hyn.

### Hyfforddiant

3.4 Dylai'r hyfforddiant ystyried y ceffyl a’i les. Dylai ceidwaid a marchogwyr fod yn ymwybodol mai proses raddol yw hyfforddi, ac nad oes atebion cyflym. Dylid osgoi defnyddio cymhorthion hyfforddi, ac ni ddylid eu defnyddio ond fel dewis olaf o dan oruchwyliaeth rhywun profiadol.

3.5 Mae hyfforddi’n cyfeirio at y ffyrdd y gellir dysgu ceffyl i ymddwyn a pherfformio yn benodol yn ôl yr hyn y disgwyliwn iddo’i wneud. Bydd angen hyfforddi’r rhan fwyaf o geffylau mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, naill ai i gael eu harwain a’u trin, eu reidio neu eu gyrru mewn harnais. Pobl brofiadol yn unig ddylai hyfforddi ceffylau, a hynny mewn lle diogel a phriodol. Mae diogelwch y ceffyl, a’r sawl sy'n ei drin, yn hollbwysig.

3.6 Maent yn dysgu drwy gael eu gwobrwyo ac ailadrodd, felly mae’n bwysig eu bod yn cael eu gwobrwyo am eu hymddygiad mewn modd a fydd yn gwneud iddynt ailadrodd hynny. Mae dulliau hyfforddi negyddol neu lym yn annerbyniol ac yn wrthgynhyrchiol.

Nid yw ceffylau’n deall pa ymddygiad i'w arddangos nes iddynt gael eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o’r achosion o ymddygiad problemus neu ddigroeso mewn ceffylau yn deillio o boen, ofn neu o fod wedi'u trin yn anghywir. Dylid gofyn i filfeddyg, gwyddonydd ymddygiad neu hyfforddwr cymwys am gyngor am ddatrys ymddygiad neu nodweddion annymunol.

## Trin ac Atal

3.7 Rhaid i unrhyw ddull ataliol a ddefnyddir i reoli neu drin ceffyl fod y dull mwyaf addfwyn a mwyaf effeithiol, a dim ond person cymwys ddylai ei roi, a hynny am y cyfnod byrraf posibl. Dim ond milfeddyg sy’n cael rhagnodi cyffuriau tawelu, a hynny ar gyfer ceffyl sydd yn ei ofal.

Er bod mannau bach wedi'u hamgáu ac offer fel corlannau crwn fod yn ddefnyddiol wrth drin neu hyfforddi ceffylau, ni ddylid eu defnyddio i gadw ceffylau am gyfnodau hir ac ni ddylid eu defnyddio er mwyn disgyblu.

DRAFT

## Adran 4: Cwmnïaeth

4.1 Mae’r adran hon yn rhoi arweiniad ar ddarparu cwmnïaeth addas i geffyl.

## Ymddygiad Cymdeithasol

4.2 Anifeiliaid heidiol yw ceffylau, ac mae'n well ganddynt fyw mewn grwpiau cymdeithasol gyda cheffylau eraill. Os nad yw hynny'n bosibl, gellir defnyddio anifeiliaid eraill i roi cwmnïaeth. Os yw ceffylau’n cael eu cadw ar eu pen eu hunain, er nad yw hyn yn rhywbeth sy’n cael ei ffafrio, bydd angen i'r ceidwad ddarparu symbyliad amgylcheddol priodol.

Mae angen cwmnïaeth ar asynnod yn arbennig. Maen nhw’n cymryd at asynnod eraill, ond hefyd at geffylau a mulod. Gall asynnod glafychu os ydyn nhw’n cael gwahanu oddi wrth eu cwmnïaeth.

4.3 Dylid diwallu anghenion unigol ceffylau, hyd yn oed os ydynt yn cael eu cadw mewn grŵp. Bydd ceffylau sy’n cael eu cadw mewn grŵp yn datblygu hierarchiaeth. Mae’n bwysig darparu’r lle, y bwyd a’r dŵr priodol er mwyn sicrhau bod y rhai sy'n is yn yr hierarchiaeth yn cael y bwyd a'r dŵr sydd eu hangen arnynt.

4.4 Fel rheol gyffredinol, po fwyaf o geffylau sy'n cael eu cadw, mwyaf yr amser, yr ymdrech a’r adnoddau sydd eu hangen i ddiogelu eu lles. Mae maint y grŵp yn bwysig hefyd; mae unigolion mewn grwpiau mwy o faint yn debygol o wynebu mwy o gystadleuaeth am fwyd a dŵr, lloches a statws cymdeithasol.

4.5 Wrth ffurfio grwpiau newydd, neu gyflwyno anifail newydd i grŵp sy'n bodoli eisoes, dylid cofio lleihau straen ac atal ymladd. Gellir lleihau'r risg drwy ddarparu mwy o le i bob un neu drwy gorlannu anifail newydd yn agos i'r grŵp am ychydig o amser. Hefyd, mae tynnu pedolau ôl pob anifail wrth gyflwyno anifail newydd yn gallu lleihau’r risg o anaf o ganlyniad i gicio.

4.6 Mae’n arbennig o bwysig gwahanu anifeiliaid anghymharus; ni ddylid cymysgu ceffylau ymosodol gyda rhai eraill. Efallai y bydd angen cadw meirch cyfan (ifanc a llawndwf) a meirch sydd â'u ceilliau heb gwympo neu geffyl sydd heb ei sbaddu'n llwyr ar wahân oddi wrth gesyg er mwyn atal bridio heb reolaeth. Efallai y bydd angen i gesyg cyfeb trwm neu gesyg sydd ag ebol wrth droed gael eu gwahanu dros dro oddi wrth geffylau eraill.

DRAFT

## Adran 5: Iechyd

5.1 Mae’r adran hon yn cynnig arweiniad ynghylch iechyd ceffyl, a'r angen i’w hamddiffyn rhag poen, dioddefaint a chlefydau.

5.2 Dylai pawb sy'n gyfrifol am oruchwylio ceffylau allu adnabod arwyddion clefydau a gwybod sut i roi cymorth cyntaf sylfaenol i geffyl. Mae hefyd yn hanfodol bod perchnogion yn gallu cael gafael ar filfeddyg i roi diagnosis neu drin unrhyw salwch, anaf neu glefyd, a bod eu manylion cyswllt ar gael yn hawdd, gan gynnwys manylion y tu allan i oriau. Dylech roi pasbort y ceffyl i’r milfeddyg pan fydd yn cael ei drin.

5.3 Dylai ceidwaid ceffylau fod yn gyfarwydd ag ymddygiad naturiol eu ceffylau, a gallu adnabod arwyddion a allai ddangos iechyd gwael. Gall y rhain gynnwys:

- newidiadau mewn ymarweddiad neu ymddygiad;
- newidiadau mewn archwaeth (am fwyd a dŵr);
- arwyddion o boen neu gloffni;
- anafiadau;
- colli pwysau yn annisgwyl a newidiadau i gyflwr y gôt;
- newidiadau mewn tymheredd corff, pwls, cyfradd anadlu; a
- newidiadau mewn tail a throeth.

5.4 Rhaid gweithredu ar unwaith pan fydd ceffyl yn mynd yn wael. Dylid gofyn am gyngor milfeddygol pan fydd ceffyl yn ymddangos fel ei fod yn sâl, mewn poen, wedi’i anafu neu wedi cael braw. Dylid dilyn unrhyw gyngor gan y milfeddyg yn drylwyr.

## Gofal Iechyd Cyffredin

5.5 Dylai ceidwaid sicrhau bod ganddynt raglen rheoli parasitiaid (llyngyr) ar waith. Gall milfeddygon ddarparu cyngor ynghylch y math o driniaeth atal llyngyr y dylid ei defnyddio a sut i’w defnyddio, a gallai hynny fod yn seiliedig ar gyfrif wyau llyngyr mewn carthion. Mae rheoli porfa yn ofalus, gan gynnwys cylchdroi’r pori a chasglu tail, yn rhan bwysig o raglen rheoli parasitiaid. Gall defnyddio cynnyrch rheoli parasitiaid mewn modd amhriodol gyfrannu tuag at ymwrthedd cyffuriau.

5.6 Pan fydd grwpiau o geffylau’n cael eu cadw gyda’i gilydd, mae rhaglenni parasitiaid fwyaf effeithiol pan fydd yr holl geffylau’n cael eu rheoli fel rhan o’r un rhaglen.

5.7 Mae ceffylau'n agored iawn i detanws, a dylid eu brechu yn erbyn y cyflwr hwn a all fod yn angheuol. Dylid trafod a chytuno ar raglen frechu â milfeddyg cyn ei rhoi ar waith.

5.8 Mae dannedd ceffylau yn torri trwodd ac yn treulio'n barhaus drwy gydol eu bywydau, ac felly maent yn newid o hyd. Bydd angen llyfnu eu dannedd o leiaf unwaith y flwyddyn. Gall arwyddion o glefyd deintyddol gynnwys cnoi bwyd yn annormal, ymateb yn annormal i'r ffrwyn, gollwng bwyd wedi'i hanner ei gnoi, a chyflwr y dannedd yn gwaethygu. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o geffylau sydd â chlefyd deintyddol yn dangos unrhyw arwyddion allanol o gwbl. O ganlyniad i hyn, dylai ceidwaid ddod yn gyfarwydd â deintiad normal eu ceffyl a dysgu sut mae archwilio cegau eu ceffylau yn rheolaidd. Dylai dannedd a cheudod ceg y ceffyl gael eu harchwilio gan filfeddyg o leiaf unwaith y flwyddyn. Dim ond milfeddyg sy'n gymwys i ddiagnosio clefydau deintyddol a chlefydau'r geg, a dylai cyflyrau o'r fath gael eu trin naill ai gan filfeddyg, neu gan ddeintydd ceffylau o dan wyliadwriaeth y milfeddyg.

5.9 Mae gofal traed priodol yn rhan allweddol o hwsmonaeth y ceffyl. Mae carnau ceffylau'n tyfu'n barhaus ac mae'n bwysig bod eu traed yn cael eu harchwilio'n rheolaidd. Pan fydd angen tocio'r carnau, dylai hynny gael ei wneud gan unigolyn cymwys. Ni ddylid disgwyl i geffyl weithio mwy na'r hyn y gall y carnau ei gynnal, pa un ai a oes ganddo bedolau ai peidio. Mae Deddf Pedolwyr 1975 yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n pedoli ceffylau gofrestru bob blwyddyn â'r Cyngor Cofrestru'r Pedolwyr. Mae hynny'n cynnwys pobl sy'n pedoli eu ceffylau eu hunain yn unig. Dylech fynd â'ch ceffyl yn syth at bedolwr os oes pedol wedi dod yn rhydd neu os ydy'r hoelion wedi codi. Dylai'r carnau gael eu tocio neu eu hail bedoli bob rhyw 4-8 wythnos fel arfer.

5.10 Mae pryfed yn gallu poeni ceffyl yn ofnadwy, yn enwedig yn yr haf, a gallant heintio clwyfau. Mae gwybed yn poeni ceffylau hefyd yn y gwanwyn a'r haf gan achosi crafu'r haf (sweet itch - alergedd ar y croen). Dylech ystyried cadw pryfed a gwybed draw trwy ddefnyddio triniaeth lladd pryfed, rygiau a mygydau pryfed, neu os yw'ch ceffyl yn sensitif i frathiadau gan bryfed neu wybed, dylech ei gadw yn y stabl ar ddechrau ac ar ddiwedd pob dydd, pan fydd pryfed a gwybed ar eu prysuraf.

## Atal Clefydau (Bioddiogelwch)

5.11 Mae yna nifer o glefydau sy'n heintus i geffylau yn bresennol yn y DU. Gall rhai o'r clefydau hyn gael eu trosglwyddo o un anifail i'r llall drwy gyswllt uniongyrchol (ceffyl i geffyl) neu gyswllt anuniongyrchol (drwy wrthrychau a cheidwaid/trinwyr). Mae atal clefydau rhag cael eu cyflwyno a'u lledaenu yn bwysig o ran iechyd a lles anifeiliaid, ac mae hefyd yn osgoi'r costau sylweddol a allai fod yn gysylltiedig ag achos o glefyd. Felly, mae'n hanfodol sicrhau arferion bioddiogelwch da.

5.12 Yn ei ystyr ehangaf, mae bioddiogelwch yn cwmpasu'r camau y gellir eu cymryd i atal anifeiliaid rhag bod yn agored i bathogenau a allai achosi clefyd, a hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Bydd felly'n cynnwys mesurau i atal yr haint rhag cael ei gyflwyno i leoliad, a mesurau i atal haint sydd wedi'i gyflwyno rhag lledaenu. Er na fydd byth yn dileu'r risg yn llwyr, mae bioddiogelwch o safon uchel yn ei leihau'n fawr. Mae'n gyfres o fesurau lleihau risg a dylid ei deilwra i ofynion penodol pob lleoliad.

5.13 Mae bioddiogelwch effeithiol yn cynnwys cynllunio ymlaen llaw. Dyma rai pethau syml y gellir eu gwneud:

- Rhoi arferion hwsmonaeth a rheoli cyffredinol da ar waith;
- Sicrhau bod gweithdrefnau hylendid da (rhwng pobl a cheffylau a rhwng gwahanol geffylau) yn cael eu cynnal. Dylai golchwyr gwasgedd uchel, brwshys, pibellau a diheintydd fod ar gael i'w defnyddo'n hawdd, a dylent gael eu defnyddio yn ôl eu risg;
- Osgoi achosi straen i geffylau; gall straen achosi clefydau i rai anifeiliaid;
- Sicrhau bod terfynau diogel; dylai ceffylau gael eu hatal rhag cymysgu ag anifeiliaid cyfagos, ac ni ddylent allu cael cyswllt trwyn i drwyn â nhw;
- Dim ond rhannu cyfarpar pan fyddant wedi'u glanhau a'u diheintio'n drylwyr, a hynny cyn ac ar ôl eu symud rhwng lleoliadau neu grwpiau o geffylau;
- Rhoi rhaglen rheoli pla ar waith;
- Cadw llwybrau mynediad, meysydd parcio ac ardaloedd bwydo a storio yn lân ac yn daclus;
- Sicrhau bod trefniant bioddiogelwch ar waith ar gyfer rhai sy'n ymweld â'r lleoliadau;
- Datblygu cynllun iechyd mewn cydweithrediad â'r milfeddyg, a'i roi ar waith.

5.14 Dylid nodi'r mesurau bioddiogelwch sydd ar waith mewn lleoliad yng nghynllun iechyd y lleoliad hwnnw. Dylai'r rhain gynnwys:

- Protocol ar gyfer ceffylau sy'n dod i mewn i'r lleoliad, gan gynnwys cyfnod cwarantin priodol;
- Cynllun rheoli parasitiaid;
- Cynllun brechu;
- Cynllun sy'n nodi beth i'w wneud pe digwyddai achos o glefyd, gan gynnwys darparu cyfleusterau ynysu.

5.15 Mae achosion o afiechydon newydd yn aml yn dechrau wrth gyflwyno ceffylau newydd i leoliad. Dylai pob lleoliad roi protocol ar waith ar gyfer achosion lle bydd ceffylau newydd yn cyrraedd y lleoliad. Dylid gwneud hyn mewn ymgynghoriad â milfeddyg. Dylai'r protocol gyfeirio at elfennau fel y rhai isod, ac mae'n bwysig cydnabod ei bod yn hanfodol i nifer o'r elfennau hyn gael eu cwblhau cyn symud yr anifail i'w gartref newydd.

- Sicrwydd priodol yng nghyswllt statws iechyd yr anifail newydd a'r iard y mae'n symud ohoni. Bydd hyn yn cynnwys elfennau megis hanes brechiadau a hanes o lyngyr (gan gynnwys tystysgrifau) a bydd angen trafod â'r ceidwad presennol a'i filfeddyg o bosib.
- Dylai'r cerbydau a ddefnyddir i gludo ceffylau gael eu glanhau a'u diheintio yn drylwyr.

- Cyfnod cwarantin penodol ar gyfer cadw ceffylau newydd ar wahân mewn ardal benodol sydd wedi'i hynysu, yn ddigon pell o anifeiliaid eraill.
- Rhaglen driniaeth ar gyfer profi ac/neu atal (e.e. brechiadau ac atal llyngyr). Bydd manylion penodol y rhaglen yn amrywio yn ôl statws iechyd yr anifail sy'n cyrraedd a'r ffynhonnell y daw ohoni.

## Cadw ceffylau ar wahân

5.16 Nid yw bob amser yn bosib cael cyfleuster penodol i wahanu ceffylau. Fodd bynnag, dylai iardiau mawr a'r rheini sydd â throsiant uchel o geffylau ddarparu cyfleuster parhaol ar gyfer cadw ceffylau ar wahân. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bloc o stablau: gallai cae (sydd â digon o loches) fod yn ddigonol. Pa beth bynnag a ddefnyddir, mae'n hanfodol bod cyswllt uniongyrchol ac anuniongyrchol rhwng ceffylau sy'n cael eu cadw ar wahân ac anifeiliaid eraill yn cael ei atal.

5.17 Dylai anifeiliaid newydd gael eu cadw ar wahân am o leiaf tair wythnos, ac yn ystod y cyfnod hwnnw dylid eu monitro'n agos. Os nad ydynt wedi dangos unrhyw arwyddion o salwch heintus ar ôl y cyfnod hwn, gellir eu cyflwyno'n raddol ac yn ofalus i'r ceffylau a oedd yno eisoes.

5.18 Dylai unrhyw geffyl a oedd yno eisoes sy'n dangos arwyddion o glefyd heintus gael ei gadw ar wahân yn syth er mwyn cael ei archwilio gan filfeddyg. Yn dilyn hyn, dylid dilyn cyfarwyddiadau'r milfeddyg.

5.19 Pan fydd ceffyl yn cael ei gadw ar wahân, dylid atal pob cyswllt â cheffylau eraill. Dylai'r ceffylau sydd wedi'u gwahanu gael eu hoffer eu hunain (offer ysgrafellu, offer iard, tac os yw'n briodol), ac nid ddylid defnyddio'r rhain gyda cheffylau eraill. Yn ddelfrydol, dylai ceffylau sy'n cael eu cadw ar wahân gael eu trin gan unigolion gwahanol i'r rhai sy'n gofalu am geffylau eraill. Fodd bynnag, nid yw hyn bob tro'n bosib. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylid trin ceffylau nad ydynt wedi'u gwahanu cyn y rheini sy'n cael eu cadw ar wahân. Ar ôl gofalu am y ceffylau sy'n cael eu cadw ar wahân, dylai'r ceidwad newid ei ddillad a golchi a diheintio ei ddwylo cyn gweithio gyda'r ceffylau nad ydynt yn cael eu cadw ar wahân unwaith eto.

## Cyfrwyau a Harneisiau

5.20 Dylai cyfrwyau a harneisiau fod yn addas at y diben gan ateb gofynion a galluoedd y ceffyl a'i farchogwr. Dylen nhw gael eu ffitio'n iawn, gan gyfrwywr profiadol os medrwch, a gofalwch eu haddasu pan fydd cyflwr y ceffyl yn newid. Dylech lanhau'r cyfarpar yn rheolaidd a'u cadw mewn cyflwr da er mwyn iddynt barhau'n gysurus, diogel ac effeithiol. Dylech ddim ond rhannu cyfarpar pan fyddant wedi'u glanhau a'u diheintio'n drylwyr, a hynny cyn ac ar ôl eu symud rhwng lleoliadau neu grwpiau o geffylau;

5.21 Mae gan geffylau gwaith anghenion arbennig o ran harnais gwaith. Dim ond pobl gymwys ddylai eu cynllunio a'u gosod.

Os ydych yn defnyddio esgidiau a rhwymau, dylent gael eu ffitio’n gywir i osgoi anesmwythyd neu anaf, a dylid eu tynnu cyn gynted â phosibl.

## Cludo Ceffylau

5.23 Dylai cludo ceffylau bob amser fod mor ddiogel a rhwydd â phosibl ac yn unol â'r rheolau a’r rheoliadau presennol. Gweler atodiad 2 am fwy o wybodaeth.

DRAFFT

ATODIAD 1

# CLYMU

Ni ddylid defnyddio clymu fel dull tymor hir ar gyfer rheoli ceffylau, oherwydd gallai hyn arwain at fethu bodloni anghenion lles sylfaenol ceffyl, fel y nodir yn y Ddeddf Lles Anifeiliaid (2006).

### Pa mor addas yw'r anifail

1. Nid yw pob anifail yn addas ar gyfer ei glymu.
2. Ni ddylech glymu ceffylau o dan ddwy oed.
3. Ni ddylech glymu cesyg cyfeb yn nhrydydd traean eu beichiogrwydd.
4. Ni ddylech glymu cesyg sugno.
5. Ni ddylech glymu cesyg wrth ymyl meirch.
6. Rhaid bod yn ofalus iawn wrth glymu meirch; ni ddylech eu clymu am gyfnod hir.
7. Ni ddylech glymu anifeiliaid sâl.
8. Ni ddylech glymu anifeiliaid hen a methedig (rhai anabl, nid rhai sâl neu rai wedi'u clwyfo).
9. Ni ddylech glymu anifeiliaid sydd yng nghanol anifeiliaid rhydd.

### Safle (y tir y mae ceffyl wedi'i glymu yn cael mynd iddo)

1. Dylai'r safle fod yn weddol wastad, gyda thrwch da o borfa arno, a heb wrthrychau arno a allai fynd yn sownd wrth y tennyn.
2. Ni ddylai'r ceffyl allu mynd at briffordd gyhoeddus.
3. Nid yw'r safle'n addas os oes cyfran uchel o'r tyfiant arno'n chwyn.
4. Ni ddylai fod yn safle sy'n llawn dŵr.
5. Ni ddylai llwybr cyhoeddus groesi'r safle.
6. Ni ddylai fod unrhyw beth ar y safle allai anafu'r anifail.
7. Ni ddylid cael defnyddio'r safle heb ganiatâd ysgrifenedig perchennog y tir. Dylai'r caniatâd ysgrifenedig gynnwys amod i gadw at y cod hwn.
8. Mae'r safle'n ddigon mawr os oes lle ar gyfer pob rhan o gorff y ceffyl a bod 4 metr ychwanegol rhwng rhan ôl un ceffyl a rhan ôl yr un nesaf ato.

### Offer clymu

1. Defnyddiwch naill ai ffrwyn o ledr sy'n ffitio'n dda neu strap gwddf lledr lydan. Dylai'r rhain fod yn sownd wrth gadwyn wrth ddyfais troi 360°.
2. Dylai'r gadwyn fod rhyw 20 troedfedd o hyd ac yn ddigon cryf i beidio â thorri ond yn ddigon ysgafn i rwystro'r offer clymu rhag rhwbio yn erbyn croen y ceffyl a'i glwyfo. Peidiwch â defnyddio rhaff na nylon.

DRAFT

3. Ni ddylai'r postyn sy'n ei ddal wrth y ddaear ymwthio'n uwch na lefel y ddaear, a rhaid rhoi dyfais troi 360° wrtho.

**Bwyd a dŵr**

1. Weithiau, bydd digon o fwyd ar ffurf porfa ar y safle eisoes; os hynny, dylech symud y safle o leiaf unwaith bob dydd i sicrhau bod y borfa o safon ddigon uchel.
2. Os nad oes digon o borfa i ddiwallu angen y ceffyl, gofalwch fod digon o borthiant ar gael iddo gydol y dydd.
3. Dylai dŵr fod ar gael yn aml ac yn rheolaidd gydol y dydd mewn cafn nad yw'n gallu moelyd (troi).
4. Mae'n bwysig cadw cynwysyddion ar gyfer dwysfwyd yn lân a diogel.

**Cysgod**

1. Ni ddylech adael i geffyl sefyll yn llygad yr haul, mewn glaw, eira neu gesair trwm na gwynt cryf ond am gyfnodau byr iawn. Pan fydd y tywydd yn neilltuol o gas, dylech ddarparu cysgod.
2. Dylech o leiaf gysgodi'r anifail rhag yr haul a gwynt mawr. Bydd gofyn bod y safle wedi'i ddraenio'n dda rhag i ddŵr glaw grynhoi arno.

**Ymarfer corff**

1. Rhaid i'r anifail gael cyfnod o amser yn rhydd bob dydd i ymarfer ei gyhyrau.

**Cadw golwg**

1. Mae angen cadw golwg fanwl iawn ar geffylau sydd wedi'u clymu a dylech fwrw golwg arnynt o leiaf bob chwe awr yn ystod y dydd.
2. Dylech sicrhau'ch bod yn gallu delio ag eithafion y tywydd ac amgylchiadau eraill.

**Marciau adnabod**

1. Yn ôl y gyfraith, mae'n rhaid i bob ceffyl yng Nghymru gael pasbort. Ar ben hynny, mae'n rhaid rhoi microsglodyn ar bob anifail sydd wedi'i eni ar ôl 1 Gorffennaf 2009, gyda'r pasbort yn cynnwys manylion rhif y microsglodyn.
2. Hefyd, dylid rhoi marc ar y ceffyl er mwyn gallu ei adnabod bob amser, a bod modd cysylltu â'r ceidwad neu'r perchennog o'r marc adnabod hwn.
3. Gellid gwneud hynny trwy rewfrandio'r ceffyl, neu fel arall gellid rhoi rhyw fath o nod adnabod ar y ffrwyn neu strap y gwddf sydd â manylion llawn y perchennog neu'r ceidwad arno.

DRAFT

**ATODIAD 2**

# Y GYFRAITH

**Deddf Lles Anifeiliaid 2006**

Mae'r cod yn cyfeirio at nifer o adrannau'r Ddeddf. Rydym wedi'u rhestru isod er hwylustod. Ceir yn y blychau ddyfyniadau o adrannau perthnasol y Ddeddf. Mae'r blychau sydd wedi'u lliwio'n llwyd yn crynhoi troseddau a chosbau perthnasol y Ddeddf.

Dywed Adran 3 Deddf Lles Anifeiliaid 2006:

(1) In this Act, references to a person responsible for an animal are to a person responsible for an animal whether on a permanent or temporary basis.

(2) In this Act, references to being responsible for an animal include being in charge of it.

(3) For the purpose of this Act, a person who owns an animal shall always be regarded as being a person who is responsible for it.

(4) For the purpose of this Act, a person shall be treated as responsible for any animal for which a person under the age of 16 years of whom he has actual care and control is responsible.

Dywed Adran 4 Deddf Lles Anifeiliaid 2006:

(1) A person commits an offence if-

(a) an act of his, or a failure of his to act, causes an animal to suffer,

(b) he knew, or ought reasonably to have known, that the act, or failure to act, would have that effect or be likely to do so

(c) the animal is a protected animal, and

(d) the suffering is unnecessary

(2) A person commits an offence if –

(a) he is responsible for an animal

(b) an act, or failure to act, of another person causes the animal to suffer,

(c) he permitted that to happen or failed to take such steps (whether by way of supervising the other person or otherwise) as were reasonable in all the circumstances to prevent that happening, and

(d) the suffering is unnecessary

DRAFT

Dywed adran 9 y Ddeddf:

(1) A person commits an offence if he does not take such steps as are reasonable in all the circumstances to ensure that the needs of an animal for which he is responsible are met to the extent required by good practice.

(2) For the purposes of this Act, an animal's needs shall be taken to include-

(a) its need for a suitable environment

(b) its need for a suitable diet

(c) its need to exhibit normal behaviour patterns

(d) any need it has to be housed with, or apart from, other animals

(e) its need to be protected from suffering, injury and disease.

(3) The circumstances to which it is relevant to have regard when applying subsection (1) include, in particular-

(a) any lawful purpose for which the animal is kept, and

(b) any lawful activity undertaken in relation to the animal.

(4) Nothing in this section applies to the destruction of an animal in an appropriate and humane manner.

Dywed Adran 14 Deddf Lles Anifeiliaid 2006, sy'n ymwneud â Chodau Ymarfer:

(3) A person's failure to comply with a provision of a code of practice issued under this section shall not of itself render him liable to proceedings of any kind.

(4) In any proceedings against a person for an offence under this Act or an offence under regulations under section 12 or 13 –

(a) a failure to comply with a relevant provision of a code of practice issued under this section may be relied upon as tending to establish liability, and

(b) compliance with a relevant provision of such a code of practice may be relied upon as tending to negative liability.

**Troseddau a Chosbau**

1. Gallai person a geir yn euog o drosedd o dan adran 4 y Ddeddf gael ei garcharu am hyd at 51 wythnos a/neu gael dirwy. Os ceir ef yn euog o drosedd o dan adran 9 (heb ddiogelu lles anifail), gellir ei garcharu am hyd at yr un cyfnod o amser a'i ddirwyo hyd at lefel 5 y raddfa safonol.
2. Gellir dwyn achos hyd at 3 blynedd ar ôl cyflawni'r drosedd. Dygir erlyniadau o dan y Ddeddf gan yr awdurdod lleol mewn Llys Ynadon.

**Deddfau eraill sy’n effeithio ar geffylau**

Yn ogystal â Deddf Lles Anifeiliaid 2006 a rheoliadau yng nghyswllt adnabod ceffylau (gweler Atodiad 4), mae nifer o ddeddfau eraill sy’n effeithio ar y ffordd o gadw ceffylau. Rydym wedi crynhoi’r rhai sydd fwyaf tebygol o effeithio ar geidwad ceffyl isod.

**Deddf Chwyn 1959**

O dan Ddeddf Chwyn 1959, caiff Gweinidogion Cymru orchymyn y meddiannydd i gymryd camau i rwystro chwyn penodol rhag lledaenu, os yw'n fodlon bod chwyn fel llysiau'r gingroen yn tyfu ar y tir. Mae'n drosedd peidio ag ufuddhau i'r gorchymyn.

**Deddf Pedolwyr (Cofrestru) 1975**

O dan y Ddeddf hon, mae'n drosedd i rywun sydd heb ei gofrestru bedoli ceffyl. Mae pedoli ceffyl yn golygu: "any work in connection with the preparation of treatment of the foot of a horse for the immediate reception of a shoe thereon, the fitting by nailing or otherwise of a shoe to the foot or the finishing off of such

**Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007**

Yn ôl Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007 rhif 1047 (Cy.105), rhaid i unrhyw un sy'n cludo anifail ar unrhyw daith sicrhau'r canlynol:

- Ni chaiff neb gludo anifeiliaid na threfnu eu bod yn cael eu cludo mewn ffordd fyddai'n debygol o'u hanafu na gwneud iddynt ddioddef yn ddiangen.
- Cadw'r daith mor fyr â phosibl.
- Sicrhau bod yr anifeiliaid yn ffit i deithio.
- Bod y cerbyd a'i offer llwytho a dadlwytho wedi'u dylunio, eu hadeiladu a'u cynnal i osgoi niwed a dioddefaint i anifail ac i gadw'r anifail yn ddiogel.
- Bod yr anifeiliaid yn cael dŵr, bwyd a gorffwys yn ôl yr angen, a bod digon o lawr ganddynt a digon o uchder yn y cerbyd.
- Rhaid cadw ffrwyn am ben ceffylau dros 8 mis oed – ond nid ceffylau heb eu dofi.
- Ar gerbydau aml-lawr, rhaid cludo ceffylau a merlod ar y llawr isaf yn unig, heb anifeiliaid ar y llawr uchaf. O dan yr amgylchiadau hyn, rhaid i'r nenfwd fod o leiaf 75cm yn uwch nag uchder ysgwyddau'r anifail talaf.
- Pan fydd y cerbyd ar long RO-RO, rhaid cludo ceffylau a merlod mewn stalau unigol, ond caiff caseg deithio gyda'i hebol.
- Rhaid peidio â chludo mwy na 4 o geffylau a merlod heb eu dofi gyda'i gilydd.
- Rhaid peidio â chludo ceffylau a merlod heb eu dofi am fwy nag 8 awr.

**Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014**

Mae Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014 yn darparu pwerau cyfreithiol cyson i bob awdurdod lleol yng Nghymru i atafaelu, corlannu, gwerthu, ail-gartrefu, dychwelyd, gwaredu neu ddifa ceffylau mewn modd di-boen ar ôl hysbysiadau a therfynau

DRAFT

amser penodol, pan ganfyddir bod y ceffyl yn achosi niwsans drwy bori'n anghyfreithlon, crwydro neu ei fod wedi ei adael yn ardal awdurdod cyhoeddus.

Nid yw'n debygol y bydd y ddeddf yn effeithio ar unrhyw un ac eithrio'r unigolion hynny sy'n gadael eu ceffylau neu yn caniatáu yn fwriadol neu'n esgeulus i'w ceffylau bori ar dir lle nad oes caniatâd ganddynt oddi wrth ddeiliad y tir neu lle bo caniatâd wedi ei dynnu'n ôl a cheidwad y ceffyl wedi gwrthod ei symud.

Mae darpariaethau'r ddeddf yn gwneud darpariaeth am y canlynol:

- Atafaelu a chorlannu ceffyl, gan yr awdurdod lleol perthnasol, pan fo'r ceffyl ar y briffordd neu yn unrhyw le cyhoeddus arall neu ar dir heb ganiatâd deiliad y tir a bod y deiliad yn cytuno i'r awdurdod lleol ei atafaelu a'i gorlannu.
- Gosod hysbysiadau ynghylch atafaelu. Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol osod hysbysiad ysgrifenedig cyn pen 24 awr o atafaelu ceffyl, yn neu yn ymyl y fan lle yr atafaelwyd y ceffyl yn datgan dyddiad ac amser yr atafaelu a sut i gysylltu â'r awdurdod lleol. Rhaid iddo hefyd, cyn pen 24 awr o atafaelu ceffyl, roi hysbysiadau ysgrifenedig i gwnstabl ac i unrhyw berson yr ymddengys ei fod yn geidwad neu'n gweithredu fel ceidwad y ceffyl.
- Talu costau cysylltiedig ag atafaelu. Mae'r ceidwad yn atebol i dalu i'r awdurdod lleol unrhyw gostau rhesymol cysylltiedig ag atafaelu a chorlannu'r ceffyl, a'i fwydo a'i gynnal tra bydd wedi'i gorlannu.
- Cael gwared â cheffylau a gorlannwyd. Caiff yr awdurdod lleol werthu neu gael gwared fel arall â'r ceffyl, gan gynnwys trefnu iddo gael ei ddifa'n ddi-boen ar ôl 7 diwrnod os na fydd unrhyw berson wedi hysbysu'r awdurdod lleol eu bod un ai yn geidwad y ceffyl neu'n gweithredu ar ran ceidwad y ceffyl.
- Cofnod o geffylau yr ymdriniwyd â hwy. Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol gadw cofrestr o bob ceffyl a gaiff ei atafaelu. Rhaid i'r gofrestr gynnwys disgrifiad byr o'r ceffyl, datganiad ynghylch y dyddiad, yr amser a'r lleoliad lle yr atafaelwyd y ceffyl, a pha bryd y corlannwyd ef a manylion y camau a gymerwyd i sefydlu pwy oedd y ceidwad.
- Datrys anghydfodau ynghylch symiau taladwy. Caiff ceidwad y ceffyl ddadlau'r swm y mae'r awdurdod lleol yn hawlio sy'n ofynnol iddo ei dalu cyn pen 7 diwrnod o dderbyn hysbysiad a chyfeirio'r anghydfod at Weinidogion Cymru i'w ddatrys.

DRAFT

**ATODIAD 3**

# FFYNONELLAU GWYBODAETH

**Deddfwriaeth:**

- Deddf Lles Anifeiliaid 2006
- Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 1/2005 ar ddiogelu anifeiliaid wrth eu cludo ac yn ystod gweithgareddau cysylltiedig.
- Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludo) (Cymru) 2007
- Deddf Chwyn 1959
- Deddf Pedolwyr (Cofrestru) 1975
- Rheoliad y Comisiwn 2015/262 yn gosod rheolau o ran dulliau ar gyfer adnabod ceffylau.

**Gwefannau sefydliadau perthnasol:**

- www.worldhorsewelfare.org – World Horse Welfare
- www.thedonkeysanctuary.org.uk – The Donkey Sanctuary
- www.bhs.org.uk – British Horse Society
- www.newc.co.uk – National Equine Welfare Council
- www.pcuk.org – The Pony Club
- www.bva.co.uk – British Veterinary Society
- www.beva.org.uk – British Equine Veterinary Association
- www.farrier-reg.gov.uk - The Farriers Registration Council
- www.wales.gov.uk – Llywodraeth Cymru
- www.hsa.org.uk – Humane Slaughter Association
- www.rspca.org.uk - RSPCA
- www.ragwort.org.uk – Ragwort Myths and Facts

**Cyhoeddiadau defnyddiol:**

Cyhoeddiadau Cymdeithas Ceffylau Prydain:

- The Complete Horse & Pony Care
- BHS Guide to Grassland management
- The BHS Complete Manual of Stable Management
- The BHS Veterinary Manual
- The BHS First Horse Owner Pack

DRAFT

- Mae taflenni lles y BHS yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau a gallwch eu llwytho o wefan y BHS: www.bhs.org.uk - dilynwch y ddolen i 'Welfare' ac yna i 'Leaflets'.

Cyhoeddiadau'r Pony Cub:

- Manual of Horsemanship
- Keeping a Pony at Grass

Cyhoeddiadau'r National Equine Welfare Council:

- Equine Industry Welfare Guidelines Compendium
- Code of Practice for Markets and Sales involved with the selling of Horses, Ponies and Donkeys
- Code of Practice for the Tethering of Horses, Ponies and Donkeys
- Code of Practice for Welfare Organisations involved in the keeping of Horses, Ponies and Donkeys

British Equine Veterinary Association

- Horse Care Guide

DRAFT

**Atodiad 4**

# Dull Adnabod Ceffylau a Phasbortau

1. Cafodd Rheoliad y Comisiwn 2015/262 yn gosod rheolau o ran dulliau ar gyfer adnabod ceffylau ei fabwysiadu ar 11 Medi 2015 a daeth i rym ledled yr Undeb Ewropeaidd ar 1 Ionawr 2016. Mae’r rheoliad yn ei gwneud yn ofynnol i bob ceffyl yng Nghymru gael pasbort.

2. Rhaid i bob ceffyl y cyhoeddwyd pasbort iddo ers 1 Gorffennaf 2009 gael ei ficrosglodynnu a rhaid i’r pasbort gynnwys rhif y microsglodyn. Mae’n ofynnol i ebolion gael eu microsglodynnu ac i basbort gael ei gyhoeddi cyn iddynt gyrraedd chwe mis oed neu erbyn 31 Rhagfyr yn y flwyddyn y ganwyd hwy, pa un bynnag sydd hwyraf.

3. Rhaid i basbort ceffyl fod wrth law bob amser. Mae eithriadau i hyn, er enghraifft pan fo’r ceffyl mewn stabl, allan yn pori neu os caiff y ceffyl ei symud drwy gerdded. Dyma enghreifftiau o’r achlysuron pryd y mae’n ofynnol i basbort fynd gyda cheffyl:

   Pan gaiff y ceffyl ei symud i eiddo newydd;

   Pan gaiff y ceffyl ei werthu;

   Pan gaiff y ceffyl ei ddefnyddio i ddibenion bridio;

   Pan gaiff y ceffyl ei symud i mewn i’r Deyrnas Gyfunol neu allan ohoni;

   Pan ddefnyddir y ceffyl mewn cystadleuaeth;

   Pan eir â’r ceffyl i ladd-dy i’w ddifa;

   Pan gaiff y ceffyl ei gludo (ac eithrio yn achos cael ei gludo am driniaeth filfeddygol frys); a

   Phan fydd milfeddyg yn dod at geffyl i roi brechiadau neu os bydd y ceffyl angen meddyginiaeth.

4. Diben pasbortau i geffylau yw sicrhau na fydd unrhyw geffylau a gaiff eu trin gyda rhai mathau penodol o gyffuriau, er enghraifft Phenylbutazone (Bute), yn dod i mewn i’r gadwyn fwyd ddynol. Mae’r pasbort yn datgan a oes modd i geffyl gael ei ddefnyddio ar gyfer bwyd ar derfyn ei fywyd. Gall ceidwaid ddatgan a fwriedir i'r ceffyl gael ei fwyta gan bobl ai peidio drwy lenwi’r adran berthnasol yn y pasbort. Os bydd ceidwad yn datgan na fwriedir i’r ceffyl gael ei fwyta gan bobl, ni ellir newid y datganiad hwn yn ddiweddarach.

5. Rhaid i geidwad y ceffyl roi’r pasbort i filfeddyg cyn i’r ceffyl gael ei drin gan y bydd yn rhoi gwybod iddo pa feddyginiaethau y gall y ceffyl eu derbyn. Os bydd angen i’r milfeddyg roi meddyginiaethau i’r ceffyl nad ydynt yn addas ar gyfer anifeiliaid sy’n cynhyrchu bwyd, bydd yn ofynnol i’r milfeddyg lofnodi’r pasbort i nodi na fwriedir i'r ceffyl gael ei fwyta gan bobl. Bydd gofyn i’r sefydliad a gyhoeddodd y pasbort hefyd gael ei hysbysu ynghylch hyn, ac nid oes modd ei newid yn ddiweddarach.

6. Rhaid i basbort gael ei ddychwelyd i’r Sefydliad a Gyhoeddodd y Pasbort pan fydd y ceffyl yn marw er mwyn iddo gael ei annilysu. Rhaid gwneud hyn cyn pen 30 diwrnod yn dilyn marwolaeth y ceffyl.

7. Os bydd y ceffyl yn cael ei werthu, rhaid i’r pasbort gael ei roi i’r perchennog newydd a bydd ganddo 30 diwrnod i ddiweddaru’r newid perchnogaeth gyda’r Sefydliad a Gyhoeddodd y Pasbort.

DRAFFT